# Atodiad 4

## Argymhellion

Rydym yn nodi yr argymhelliad sy'n codi o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol arno y flwyddyn nesaf ac yn cynnwys y mater yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf os mae'n dal i fodoli:

**Arddangosyn 4: mater yn codi 1**


| **Mater yn codi 1 – niferoedd aelodaeth** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae risg bosibl y gallai nifer yr aelodau yn y cynllun pensiwn ag adroddir yn y cyfrifon gael eu camddatgan. Nid yw'r Gronfa Bensiwn wedi gallu darparu adroddiad o'r system Altair (system gweinyddu pensiynau) sy'n dangos manylion a chyfanswm yr aelodau i gefnogi'n llawn y ffigyrau ag adroddwyd yn Nodyn 1 i'r cyfrifon. Fodd bynnag, roedd y Gronfa Bensiwn yn gallu dangos nad oedd y ffigyrau'n anghyson ag adroddiad dilynol o'r system a gynhaliwyd yn ddiweddarach. |
| **Blaenoriaeth** | Isel |
| **Argymhelliad** | Dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd redeg ac arbed yr adroddiad ar fanylion aelodaeth a gofnodwyd yn system Altair i gefnogi'r ffigyrau ag adroddwyd yn y cyfrifon. |
| **Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith** | Darparu tystiolaeth archwilio ddigonol i gefnogi'r ffigyrau ag adroddwyd yn y cyfrifon. |
| **Wedi'i dderbyn yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Digwyddodd hyn oherwydd bod data aelodaeth yn cael ei ddiweddaru'n barhaus ar system Altair ac ni ellir cynhyrchu adroddiadau ôl-weithredol. Bydd adroddiad i gefnogi'r niferoedd aelodaeth mewn |

# Cydbwyllgor Llywodraethu – Crynodeb o Berfformiad Ch2 2023


## Sylwadau ar y Farchnad Fyd-eang

Fe ddringodd Mynegai Net y Byd MSCI 6.8% yn yr ail chwarter. Bu data economaidd cadarnhaol a datrysiad i drafodaethau nenfwd dyledion yr UD yn gymorth i wthio ecwiti yn uwch ym mis Mehefin ar ôl perfformiad distawach ym misoedd Ebrill a Mai. Bu dargyfeiriad ar draws marchnadoedd, gyda'r UD yn ennill y blaen ar y mynegai byd-eang a chymheiriaid datblygedig. Bu cynnydd araf ar reoli chwyddiant a'r disgwyliadau i gyfraddau godi yn y dyfodol yn pwyso ar farchnadoedd yn y DU ac Ewrop. Fe wnaeth doler yr UD gryfhau yn erbyn yr ien Japaneaidd a'r rhan fwyaf o arian nwyddau-sensitif ond gwaniodd yn erbyn y bunt a'r ewro. Aeth prisiau olew i lawr wrth i bryderon am ragolygon y galw byd-eang barhau, yr adferiad araf yn dilyn Covid yn Tsieina yn benodol. Fe wnaeth y Federal Reserve (Fed), Banc Canolog Ewrop (ECB) a Banc Lloegr (BoE) i gyd godi cyfraddau dros y chwarter, drwy symiau amrywiol.

## Perfformiad dosbarth ased – y Chwarter hyd Heddiw (Mehefin) 2023




## Perfformiad dosbarth ased – y Flwyddyn hyd Heddiw (Mehefin) 2023




Meincnodau : Global equity hedged (MSCI World ACWI), UK equity (FTSE All Share), US equity hedged (Russell 1000 Net GBPH), Europe ex UK equity (MSCI Europe ex UK Equity Net GBPH), Japan equity (TOPIX Net GBPH), Emerging equity (MSCI Emerging Markets Net), Global HY bonds (BofAML Global High Yield 2% Constrained Index), EMD LC (JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index), Global credit hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index), Global aggregate hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Bond Index GBPH), UK Government Bonds (ICEBofAML UK Gilts All Stocks (GB), Property hedged (FTSEEPRA Nareit Dev Re GBP)

## Cronfa Dwf Ecwiti Byd-eang:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | 1.79 | 10.39 | 9.77 |
| **Net** | 1.69 | 9.99 | 9.35 |
| **MSCI AC World Index Net** | 3.26 | 11.31 | 10.53 |
| **Gwarged enillion (gros)** | -1.47 | -0.92 | -0.76 |

**Dyddiad Cychwyn: 31 Ionawr 2019**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023**

| Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol |
|---|
| Dychwelodd y Gronfa 1.8% mewn GBP dros y chwarter ond tanberfformiodd yn erbyn dychweliad y meincnod. Gwerth oedd y ffactor nodedig oedd yn tanberfformio gan gofnodi dychweliad negyddol ar gyfer y chwarter.<br><br>Fe wnaeth bias gwerth Pzena danberfformio'r farchnad eang ond perfformiodd yn well na gwerth y mynegai. Fe wnaeth sectorau gwerth arferol gan gynnwys Ynni, Prif Gynhyrchion a Deunyddiau i gyd danberfformio'r farchnad. Er gwaethaf y rhwystrau ym mis Mawrth a achoswyd gan gwymp Banc Silicon Valley, dewis stociau mewn Elfennau Ariannol oedd yr elfen fwyaf cadarnhaol o unrhyw sector. Er gwaethaf marchnad a arweinir gan dwf, roedd perfformiad Baillie Gifford yn unol â'r farchnad. Fe wnaeth dewis stociau gydbwyso tanbwysau'r IT. Arweiniwyd enillion marchnad gyda dychweliad o 10% ar gyfer y sector Technoleg Gwybodaeth, sef y tanbwysau sector mwyaf yn y Gronfa Dwf Byd-eang ar -10.3%. Fe wnaeth cryfder y galw am raffeg Nvidia a phrosesyddion AI synnu'r farchnad, gan arwain at rali 50% yn y stoc a sbarduno rali eang yn y sector. Y sector gorbwysiad mwyaf yw gofal iechyd a gollodd dir dros y chwarter a ddwysawyd gan weithrediadau stoc siomedig gan Novocure, Bio Rad Labs ac Illumina. Fe wnaeth y rhagolygon o newid dwylo sbarduno rali chwarter cyntaf yn naliad Veritas o Catalent; fodd bynnag, rhoddwyd y gorau i'r dychweliad hwnnw yn yr ail chwarter. Cyfrannodd gofal iechyd at oddeutu dwy ran o dair o danberfformiad yn y chwarter. Bu i ddewis stociau o fewn sector Disgresiwn y Defnyddwyr lunio balans y tanberfformiad. |

## Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | 3.02 | 11.92 | 11.69 |
| **Net** | 2.94 | 11.61 | 11.36 |
| **MSCI AC World Index Net** | 3.26 | 11.31 | 10.53 |
| **Gwarged enillion (gros)** | -0.25 | 0.61 | 1.16 |

**Dyddiad Cychwyn: COB 31 Ionawr 2019**

**Ffynhonnell: Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023**

| Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol |
|---|
| Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliadau absoliwt positif dros yr ail chwarter ond tanberfformiodd fymryn yn erbyn y meincnod ar sail gymharol.<br><br>Fel y chwarter cyntaf, twf a chapiau mawr oedd y dulliau a berfformiodd orau, gan berfformio'n sylweddol well na'r mynegai. Fodd bynnag, gyrrwyd perfformiad twf gan yr UD wrth i'r ffactor lusgo yn Ewrop cyn DU a Siapan. Isafswm cyfnewidioldeb oedd y ffactor a berfformiodd waethaf. Technoleg gwybodaeth oedd y sector a berfformiodd orau, a gafodd ei hybu gan ganlyniadau enillion cryf gan gwmnïau technoleg mawr yn y DU a'r cyffro ynghylch y potensial mewn AI. Fe wnaeth disgresiwn defnyddwyr hefyd wneud enillion sylweddol. Mewn cyferbyniad, cyfleustodau, ynni a deunyddiau oedd y sectorau gyda'r perfformiad gwanaf. |

## Sylwadau ar y Farchnad EM

Enillodd Mynegai Marchnadoedd Datblygol (EM) MSCI (USD) 0.9%. Fe wnaeth gwell sentiment gan fuddsoddwyr arwain at berfformiad Mehefin cadarnhaol a helpu'r farchnad i ddod dros ddychweliadau negatif misoedd Ebrill a Mai. Fodd bynnag, roedd EM yn arafach na marchnadoedd datblygedig yn gyffredinol oherwydd 'selloff' gyda Tsieina, gan fod pryderon cynyddol am gryfder yr economi yn pwyso ar ddychweliadau. Aeth prisiau olew i lawr gan fod y rhagolygon ansicr am alw byd-eang yn parhau.

## Cronfa Cyfleoedd Ecwiti EM:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | -2.28 | -0.45 | -7.74 |
| **Net** | -2.40 | -0.94 | -8.19 |
| **Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI** | -1.50 | -1.34 | -6.80 |
| **Gwarged enillion (gros)** | -0.78 | 0.89 | -0.94 |

Targed Perfformiad yw Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI + 1.5%

**Dyddiad Cychwyn: COB 20 Hydref 2021**

**Ffynhonnell: Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023**

| Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol |
|---|
| Bu i'r Gronfa danberfformio yn erbyn yr enillion meincnod negyddol. Roedd lleoliad ffactor y Gronfa yn gweddu i amgylchedd y farchnad, gan gynnwys gorbwysiad ar gyfer gwerth a momentwm. Fodd bynnag, roedd dewis yn Tsieina yn negyddol y chwarter hwn, yn enwedig o fewn sectorau disgresiwn y defnyddwyr a deunyddiau yn y wlad. Roedd dyraniad negyddol gwlad yn cynnwys tanbwysau i India, Taiwan a Saudi Arabia. Fodd bynnag, gwobrwywyd gorbwysiad i Frasil. Fe wnaeth dewis ym Mrasil (cwmni olew mawr Petrobas) a De Corea (lled-ddargludydd stoc SK Hynix) gyfrannu'n gadarnhaol.<br><br>Artisan oedd y rheolwr a berfformiodd orau'r chwarter hwn er gwaethaf amgylchedd anffafriol ar gyfer ei ogwydd twf. Fe wnaeth strategaeth dwf Axiom danberfformio mewn cyfnod pan wnaeth ffactor twf arafu. Ymestynnodd Barrow Hanley ei berfformiad gwell na'r meincnod o'r cychwyn hyd yma ac ychwanegodd Numeric, rheolwr Quant at ei berfformiad gwell tymor hirach. Gorffennodd Oaktree yn unol â'r meincnod; fodd bynnag, tanberfformiodd arbenigwr Tsieina, Bin Yuan ar ei feincnod mewn chwarter negyddol i Tsieina. |

## Sylwadau ar Farchnad y DU

Cafodd ecwiti'r DU drafferth yn yr ail chwarter wrth i bryderon am iechyd yr economi barhau. Arhosodd chwyddiant yn sylweddol uwch nag yn unman arall er gwaethaf tynhad ariannol parhaus gan Fanc Lloegr (BoE), a gododd gyfraddau ddwywaith yn y chwarter, o 25 bps ym mis Mai ac yna o 50 bps annisgwyl ym mis Mehefin, gyda'r olaf yn cynrychioli'r 13eg cynnydd olynol yn y gyfradd. Cydnabu llywodraethwr Banc Lloegr, Andrew Bailey, fod y banc yn wynebu trobwll prisiau cyflog gan fod cynnydd sydyn mewn prisiau ynni a bwyd wedi arwain at gwmnïau yn gosod cyflogau a phrisiau cyffredinol. Yn Fforwm y Central Bank Ewropeaidd ym mis Mehefin, dywedodd fod cyfraddau llog yn debygol o aros yn uchel yn hirach na marchnadoedd ariannol. Nid oedd newid i chwyddiant sydd yn y penawdau a oedd yn 8.7% ym mis Mai ond cododd chwyddiant craidd i 7.1% o 6.8% ym mis Ebrill. Yn y cyfamser, cododd gwerthiant siopau o 0.3% MoM ym mis Mai, a oedd yn fwy na'r rhagolygon o ostyngiad o 0.2%.

## Cronfa Cyfleoedd Ecwiti'r DU:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | 0.13 | 13.40 | 3.39 |
| **Net** | 0.04 | 13.00 | 2.99 |
| **FTSE All Share** | -0.46 | 7.89 | 3.86 |
| **Gwarged enillion (gros)** | 0.59 | 5.51 | -0.48 |

**Dyddiad Cychwyn: COB 23 Medi 2019**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023**

| Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol |
|---|
| Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliadau absoliwt positif dros yr ail chwarter a pherfformiodd yn well yn erbyn y meincnod negyddol. Cafodd ecwiti'r DU drafferth yn yr ail chwarter wrth i bryderon am iechyd yr economi barhau. I'r gwrthwyneb, fe wnaeth capiau bach a gwerth arafu. Mewn sectorau, technoleg oedd y sector a berfformiodd orau, a elwodd o'r optimistiaeth ynghylch deallusrwydd artiffisial (AI) a pherfformio'n sylweddol well yn erbyn pob sector arall. Gwnaeth elfennau ariannol a diwydiannol yn dda hefyd. Mewn cyferbyniad, telegyfathrebu a deunyddiau arafodd fwyaf. |
| Baillie Gifford (twf hirdymor) oedd y strategaeth a berfformiodd orau dros y chwarter. Cafodd ei ffocws ar dwf ei wobrwyo yn ystod y cyfnod. Fe wnaeth Ninety One (gwerth contrarian) danberfformio yn erbyn y meincnod yn yr ail chwarter. Roedd gogwydd y rheolwr tuag at werth yn anffafriol yn ystod y cyfnod. |

## Sylwadau ar y Farchnad Incwm Sefydlog

Cynyddodd Mynegai Bond Agregau Byd-eang Bloomberg (USDH) 0.1% dros y chwarter. Gorffennodd dychweliadau'r llywodraeth yn wastad neu'n is, gan fod gwneuthurwyr polisi wedi dynodi y byddai angen cynnydd ychwanegol mewn cyfraddau llog er mwyn dod â chwyddiant dan reolaeth. Fe wnaeth sofrenni ardal yr Ewro wneud yn well na'u cyfwerthoedd mewn llefydd eraill, yn benodol yn Japan a Tsieina. Gorffennodd bondiau corfforaethol yn uwch yn fras, gyda chredyd enillion uchel yn perfformio'n well na bondiau graddfa buddsoddi ar wahân i farchnadoedd datblygol. Fe wnaeth y Federal Reserve (Fed), Banc Canolog Ewrop (ECB) a Banc Lloegr (BoE) i gyd godi cyfraddau dros y chwarter, drwy symiau amrywiol.

## Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | -1.37 | -1.58 | -3.84 |
| **Net** | -1.42 | -1.82 | -4.08 |
| **FTSE World Gvt Bond Index (GBP Hedged)** | -4.19 | -6.14 | -6.19 |
| **Gwarged enillion (gros)** | 2.82 | 4.56 | 2.35 |

**Dyddiad Cychwyn: COB 30 Gorffennaf 2020**

**Ffynhonnell: Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023**

| Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol |
|---|
| Cofrestrodd y Gronfa ddychweliadau absoliwt negyddol ond perfformiodd yn well na dychweliad y meincnod negyddol y chwarter hwn. Roedd amlygiad tanbwysau'r Gronfa i filiau T byr yr UD yn andwyol. Roedd amlygiad i giltiau byr yn y DU ar adeg pan aeth enillion yn uwch yn ddifrïwr pellach. Cafodd tanberfformiad ei liniaru gan or-bwysau i gyfraddau Mecsicanaidd ac, yn debyg i'r chwarter blaenorol, gor-bwysau i gyfraddau Colombiaidd. |

## Cronfa Credyd Byd-Eang:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | -0.66 | -0.44 | -4.70 |
| **Net** | -0.70 | -0.61 | -4.87 |
| **Bloomberg Barclays Global Agg Credit Index (GBP Hedged)** | -0.21 | -0.13 | -4.53 |
| **Gwarged enillion (gros)** | -0.46 | -0.31 | -0.17 |

**Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020**

**Ffynhonnell: Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023**

| Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol |
|---|
| Bu i'r Gronfa danberfformio yn erbyn yr enillion meincnod y chwarter hwn.<br>O fewn yr amgylchedd hwn, fe wnaeth gorbwysiad i enillion uchel Ewropeaidd (ariannol) a chredyd graddfa buddsoddi gyfrannu'n gadarnhaol. Cafodd amlygiad i orbwysiad i gredyd enillion uchel yr UD i elfennau ariannol a diwydiannol hefyd ei wobrwyo. Fodd bynnag, fe wnaeth tanbwysau i elfennau diwydiannol graddfa buddsoddi yr UD leihau. Mewn dyledion marchnadoedd datblygol arian cyfred, bu tanbwysau i gredyd graddfa buddsoddi yn Asia, Ewrop, America Ladin a'r Dwyrain Canol hefyd yn andwyol i ddychweliadau. |

## Cronfa Credyd Aml-ased:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | 2.30 | 5.96 | 0.42 |
| **Net** | 2.22 | 5.58 | 0.08 |
| **3 Month GBP Sonia + 4%** | 2.10 | 7.29 | 5.26 |

Targed Perfformiad yw 3 Mis GBP SONIA + 4%, nid ydym wedi dangos y gwarged enillion gan mai targed yw hwn.

**Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020**

**Ffynhonnell: Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023**

| Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol |
|---|
| Bu i'r Gronfa gofnodi enillion cadarnhaol mewn chwarter pan ail-grynhodd marchnadoedd ariannol.<br>Roedd enillion uchel (HY) yn gryfach na dyled corfforaethol graddfa buddsoddi. Fe wnaeth 'spreads' enillion uchel byd-eang dynhau'n sylweddol dros y chwarter gydag enillion uchel yr UD yn perfformio'n well nag enillion uchel Ewropeaidd. Tynhaodd 'spreads' graddfa buddsoddi byd-eang. Roedd graddfa buddsoddi'r UD yn gryfach na chredyd graddfa buddsoddi Ewropeaidd. Tynhaodd 'spreads' dyledion marchnadoedd datblygol arian cyfred yn amgylchedd y farchnad. Yr arbenigwr benthyciadau, ICG oedd y rheolwr a berfformiodd orau. |

## Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | 0.67 | 3.65 | 2.17 |
| **Net** | 0.59 | 3.36 | 1.86 |
| **3 Month GBP SONIA + 2%** | 1.61 | 5.23 | 3.31 |

Targed Perfformiad yw 3 Mis GBP SONIA + 2%, nid ydym wedi dangos y gwarged enillion gan mai targed yw hwn.

**Dyddiad Cychwyn: COB 30 Medi 2020**

**Ffynhonnell: Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023**

| Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol |
|---|
| Bu i'r Gronfa gofnodi enillion cadarnhaol y chwarter hwn.<br>Roedd enillion uchel (HY) yn gryfach na dyled corfforaethol graddfa buddsoddi. Fe wnaeth 'spreads' enillion uchel byd-eang dynhau'n sylweddol, o 56 bps i 491 dros y chwarter. Fe wnaeth enillion uchel yr UD (-65 bps i 390) berfformio'n well nag enillion uchel Ewropeaidd (-38 bps i 443). Tynhaodd 'spreads' graddfa buddsoddi byd-eang o 14 bps i 124. Roedd graddfa buddsoddi'r UD (-15 bps i 114) yn gryfach na chredyd graddfa buddsoddi Ewropeaidd (-7 bps i 139). Fe wnaeth dyledion marchnadoedd datblygol (EMD) arian cyfred lleol berfformio'n well nag EMD arian cyfred caled. |

## Cronfa Credyd Sterling:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | -3.06 | -4.91 | -5.81 |
| **Net** | -3.09 | -5.03 | -5.94 |
| **ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling Index plus 0.65%** | -3.19 | -6.40 | -6.21 |
| **Gwarged enillion (Gros)** | 0.13 | 1.49 | 0.41 |

**Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2023**

**Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol**

Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliadau negyddol ond perfformiodd yn well na'r mynegai dros y chwarter. Fe wnaeth safle ffafriol parhad y bunt y gronfa ychwanegu gwerth. Cododd enillion giltiau ynghanol chwyddiant cynyddol a arweiniodd at ailbrisio cyfraddau terfynol o 5% i 6 a mwy o ddatrysiadau gan Fanc Lloegr i fynd i'r afael â chwyddiant. Yn ogystal, fe wnaeth sefyllfa tanbwysau ym mharhad y ddoler Canadaidd wella enillion. Fodd bynnag, fe wnaeth sefyllfa gorbwysiad ym mharhad yr Ewro leihau perfformiad.

Ar lefel sector, fe wnaeth sefyllfa tanbwysau mewn Cyfleustodau a Chylchol Defnyddwyr leihau perfformiad ond fe wnaeth sefyllfa gorbwysiad mewn Yswiriant a Banciau a Broceriaid gefnogi perfformiad. Fe wnaeth sefyllfa tanbwysau yn y Banc Buddsoddi Ewropeaidd ac Innogy Finance leihau perfformiad. Yn y cyfamser, fe wnaeth safbwynt gorbwysiad mewn enwau yswiriant megis Zurich Insurance ac Yswiriant Pensiwn arwain at ddychweliadau. Hefyd, cefnogwyd perfformiad gan sefyllfa tanbwysau yn Thames Water wrth i fondiau ostwng o ganlyniad i bryderon na fyddai'r cwmni'n gallu ad-dalu oherwydd argyfwng hylifedd.

# Diweddariadau'r Farchnad

## Caffaeliad Arfaethedig

Fel y trafodwyd ers ein cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar 19 Gorffennaf 2023;

Isod, gweler y diweddariad mewn perthynas â chynnydd gwerthiant busnes Fund Solutions (FS Business) a'r trafodaethau parhaus gydag Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) y DU i setlo ymchwiliad yr FCA yn erbyn Link Fund Solutions Limited (LFSL).

Cyhoeddodd Link Group ar 3 Awst 2023 (amser Sydney) fod gwrth-bartion i'r contractau sy'n cynrycholi'r mwyafrif refeniw trothwy gofynnol mewn perthynas â busnes ACD LFSL a busnes Link Fund Manager Solutions (Iwerddon) Limited wedi cytuno i'r contractau hynny gael eu trosglwyddo i Waystone Group ar ôl cwblhau'r FS Sale.

Mae boddhad yr amodau cydsynio refeniw a thrydydd parti ar gyfer yr FS Sale yn parhau i fod yn amodol ar dderbyn peth cymeradwyaeth rheoleiddio penodol yn y DU ac Iwerddon.

Mae Link Group wedi derbyn cliriad gan y Competition and Consumer Protection Commission of Ireland mewn perthynas â'r FS Sale. Mae Link Group yn disgwyl y bydd yr FS Sale yn cwblhau ym mis Hydref 2023, yn amodol ar fodloni'r amodau sy'n weddill.

Ar 28 Gorffennaf 2023, hysbysodd LFSL y buddsoddwyr yn yr WEIF (Buddsoddwyr WEIF), yn amodol ar ddeilliant y trafodaethau â Link Group a'r FCA, ac argaeledd Uchel Lys Lloegr, bod LFSL yn disgwyl cyhoeddi Llythyr Datganiad Ymarfer ym mis Medi 2023. Bydd y Llythyr Datganiad Ymarfer yn hysbysu Buddsoddwyr WEIF o lansiad ffurfiol y Cynllun ac yn rhoi manylion pellach ynghylch telerau allweddol y Cynllun a'r gwrandawiad llys cyntaf mewn perthynas â'r Cynllun.

Mae'r Setliad sy'n cael ei ystyried gan y Cynllun yn amodol ar gwblhau'r FS Sale. Os daw'r Cynllun yn effeithiol, bydd yn darparu arian, gan gynnwys cyfraniad o hyd at £60 miliwn o Link Group i LFSL, fydd ar gael i wneud taliadau i'r Buddsoddwyr WEIF. Yn gyfnewid am y taliadau hynny i'r buddsoddwyr WEIF, LFSL, Link Group a'u cysylltiadau a'u swyddogion perthnasol, byddant yn derbyn rhyddhad o atebolrwydd sy'n ymwneud â rôl LFSL fel ACD y WEIF.

Mae Link Group yn parhau i fod yn hyderus, hyd yn oed os na chymeradwywyd y Cynllun ac y terfynwyd y Setliad, mae atebolrwydd yn ymwneud â'r WEIF yn parhau o fewn LFSL ac nid oes gan Link Group unrhyw ymrwymiad i gyfrannu at unrhyw rai o'r atebolrwydd hyn sy'n ymwneud â WEIF.

Targedir i'r Gwerthiant gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2023 ac nid yw'n amodol ar y Cynllun neu'r Setliad yn bod yn ddiamod.

# Mehefin 2023 Crynodeb AUM LF Cronfa PP Cymru

| Cronfa | AUM | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Twf Byd-eang | £3,152,544,871 | 6 Chwe 2019 |
| Cyfleoedd Byd-eang | £2,872,375,381 | 14 Chwe 2019 |
| Cyfleoedd y DU | £760,439,759 | 10 Hyd 2019 |
| Marchnadoedd Datblygol | £356,535,814 | 20 Hyd 2021 |
| Credyd Sterling | £505,218,736 | 19 Awst 2020 |
| Credyd Byd-Eang | £822,842,390 | 21 Awst 2020 |
| Credyd Aml-ased | £677,453,841 | 12 Awst 2020 |
| Bondiau Llywodraeth Byd-Eang | £474,633,884 | 20 Awst 2020 |
| Bond Enillion Absoliwt | £562,410,324 | 30 Medi 2020 |
| Cronfa Cyfleoedd Ecwiti Gweithredol | £1,282,280,221 | 20 Mehefin 2023 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau Actif** | **£11,466,735,225** | |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau Goddefol** | **£4,738,457,626** | |
| **Cyfanswm Asedau Cyfun** | **£16,205,192,851 fel ar 30 Mehefin 2023** | |

# Diweddariad Is-gronfeydd

| Lansio Cronfeydd a Newidiadau | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Statws** | **Sylwadau** |
| **Lansio Cronfeydd a Newidiadau sydd wedi'u Cwblhau** | Sefydlu Cronfa Ecwiti Cynaliadwy | ✓ | Cronfa'n Lansio 20 Mehefin 2023, gyda'r trosglwyddiad i Russell Investments o'r Rheolwr Trosglwyddo i fod ar 14 Gorffennaf 2023 |
| **Lansio Cronfeydd a Newidiadau Parhaus** | Ychwanegu Robeco i'r gronfa Credyd Byd-eang, tynnu T Rowe Price | ✓ | Rheolwr Buddsoddi Newydd 'Robeco' i gael ei weithredu yn Ch3 2023. |
| | Ychwanegu Rheolwr Buddsoddi Newydd i'r Gronfa Twf Byd-eang, fel ychwanegiad at Reolwyr presennol | ✓ | Rheolwr newydd ychwanegol arfaethedig i'w drafod gyda'r Host a Hymans cyn rhannu gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol gyda'r rhesymeg dros y newid |



**Status key:**

- Completed or already in place
- On target;
- Delay Expected;
- Not Applicable

# Mentrau

| Busnes fel Arfer + Newidiadau Allweddol | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Statws** | **Sylwadau** |
| **Gwybodaeth Reoli** | Symud i gylch Adrodd Chwarterol gyda newidiadau i'r wybodaeth a gafwyd | ✓ | Cylch Adrodd yn Chwarterol ar waith erbyn hyn |
| **Adrodd ar weithrediadau dosbarth** | Cyflwyno adrodd ar weithrediadau dosbarth i'r Sawl sy'n Lletya ar sail chwarterol | ✓ | Rydym wedi parhau i ddarparu adrodd ar Weithrediadau Dosbarth i'r Awdurdod Lletya |

**Status key:**

- Completed or already in place
- On target;
- Delay Expected;
- Not Applicable

# Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol LFS

## Ymgysylltu Allweddol â PPC yn Ch1 ac yn y dyfodol

**Presenoldeb Link yng nghyfarfodydd y GS/CBLl yn y cyfnod:**

- GS 23 Mai 2023

**Presenoldeb Link yng nghyfarfodydd y GS/CBLl yn y chwarter nesaf:**

- CBLl PPC 19 Gorffennaf 2023
- GS 24 Hydref 2023
- Cydbwyllgor Llywodraethu PPC 20 Medi 2023

**Link - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y cyfnod:**

- Clwyd - cyfarfod Pwyllgor Pensiynau 23 Mehefin 2023

**Link - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y chwarter nesaf :**

- Cyfarfod Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi Powys - 6 Hydref 2023

**Cyfarfodydd eraill yn y cyfnod**

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Sesiwn briffio / hyfforddiant PPC - (Sesiwn gyntaf)

**Cyfarfodydd eraill yn y chwarter nesaf**

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Adolygu'r Berthynas Strategol - 20 Medi 2023
- Cyfarfod Ymgysylltu â Chadeiryddion y Bwrdd Pensiwn - 3 Hydref 2023

# Protocol Ymgysylltu LFS - Busnes fel Arfer

| Adolygu'r Berthynas Strategol | Amlder | Amcan |
| --- | --- | --- |
| | ▪ Dwywaith y flwyddyn | ▪ Sicrhau aliniad strategol rhwng yr Awdurdod Lletya a Link |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Chris Moore<br>▪ Anthony Parnell<br>▪ Dau Swyddog Adran 151 / Dirprwy Swyddog Adran 151 | | **Mynychwyr Link**<br>▪ Karl Midl, Rheolwr Gyfarwyddwr<br>▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau |

| Ymgysylltiad â'r CBLl | Amlder | Amcan |
| --- | --- | --- |
| | ▪ Chwarterol | ▪ Ymgysylltu â’r CBLl ar faterion perthnasol a phosibiliadau strategol |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLl) | | **Mynychwyr Link**<br>▪ Karl Midl, Rheolwr Gyfarwyddwr / Adam Tookey, Pennaeth Cynnyrch – fel bo'r angen<br>▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau<br>▪ James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau<br>▪ Russell Investments |

| Ymgysylltiad â'r Gweithgor Swyddogion | Amlder | Amcan |
| --- | --- | --- |
| | ▪ Chwarterol | ▪ Adnabod a chyflawni cyfleoedd i wella ac ehangu'r berthynas<br>▪ Rhoi diweddariad ar brosiectau neu faterion sy'n agored<br>▪ Adolygiad DPA Misol (Darperir y data yn fisol) |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Gweithgor Swyddogion (GS) | | **Mynychwyr Link**<br>▪ James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau<br>▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau<br>▪ Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)<br>▪ Swyddogion Link yn mynychu'n ad-hoc o adrannau swyddogaethol: Treth, Cydymffurfiaeth, Cynnyrch ac ati<br>▪ Russell Investments |

Sylwer: Gellir cynnal cyfarfodydd o bell ac/neu eu cyfuno lle bo'r angen.

# Protocol Ymgysylltu Link (parhad)...

| Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya | Amlder | Amcan |
| --- | --- | --- |
| | ▪ Bob pythefnos | ▪ Cyswllt rheolaidd rhwng yr Awdurdod Lletya – LFS i drafod beth sy'n bosib i'w gyflawni, a diweddariadau busnes |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Anthony Parnell<br>▪ Tracey Williams | | ▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau<br>▪ James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau<br>▪ Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)<br>▪ Clair Baguley, Rheolwr Gwasanaeth Cleient (yn ôl yr angen) |

| Pwyllgorau Cronfa Bensiwn | Amlder | Amcan |
| --- | --- | --- |
| | ▪ Adroddiad Blynyddol | ▪ Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a mentrau ar y gweill |
| ▪ Cyfarfodydd Pwyllgor y Cronfeydd Pensiwn unigol | | ▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau<br>▪ James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau<br>▪ Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)<br>▪ Russell Investments |

| Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr | | Amcan |
| --- | --- | --- |
| | ▪ Adroddiad Blynyddol | ▪ Diwrnod agored i gael cyflwyniadau ar strategaeth a pherfformiad (gyda IM) |
| ▪ Agored i'r holl bartion ynghlwm | | ▪ Tîm Cleient Link<br>▪ Northern Trust<br>▪ Russell Investments a Rheolwyr Buddsoddi eraill<br>▪ Ymgynghorwyr eraill yn ôl yr angen (e.e. bFinance) |

| Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn | Amlder | Amcan |
| --- | --- | --- |
| | ▪ Dwywaith y flwyddyn | ▪ Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a mentrau ar y gweill |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Cadeiryddion yr Awdurdodau Cyfansoddol<br>▪ Awdurdod Lletya | | ▪ Tîm Cleient Link<br>▪ Russell Investments |

## *Rheolwyr Perthnasau*

**Enw: James Zealander**
Rôl: Uwch Reolwr Perthnasau
Rhif:+44 (0)20 7954 9727
E-bost: James.Zealander@linkgroup.co.uk

**Heidi Robinson**
Rheolwr Perthnasau
+44 (0) 7843 804917
Heidi.Robinson@linkgroup.co.uk

## *Pennaeth Perthnasau Cleientiaid*

**Enw: Richard Thornton**
Rôl: Pennaeth Rheoli Perthnasau - Perchnogion Asedau
Rhif: +44 (0)20 7954 9806
E-bost: Richard.Thornton@linkgroup.co.uk

## *Cyswllt Gweithredol*

**Enw: Karl Midl**
Rôl: PW a Rheolwr Gyfarwyddwr
Rhif: +44 (0)7951 266225
E-bost: karl.midl@linkgroup.co.uk



**Ymwrthodiad**
Cyhwynir y ddogfen hon gan Link Fund Solutions Limited. Mae’r wybodaeth a ddarperir er dibenion arweiniad a gwybodaeth yn unig, ac ni ddylid ei hystyried fel rhywbeth sy'n cymryd lle cyngor cyfreithiol. Link Fund Solutions Limited, 6th Floor, 65 Gresham Street, London EC2V 7NQ. Wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

### Llywodraethu

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Datblygu Polisi Tramgwyddau a Gwallau PPC | Yn mynd rhagddo | I'w gyflwyno i CBLl Medi 2023 am gymeradwyaeth |
| • Contract darparwr Gwasanaethau Cyfreithiol (adolygiad 3 blynedd cychwynnol) | | Hydref i Rhagfyr 2023 |
| • Adolygiad parhaus o'r Cytundeb Rhwng-Awdurdodau | Parhaus | |
| • Adolygiad blynyddol o bolisïau a chynlluniau PPC | Parhaus | |
| • Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg | Parhaus | |
| • Ymateb i unrhyw ystyriaethau'n ymwneud â'r buddsoddi ar y cyd, ac ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol yn dilyn canlyniadau ymgynghori. | Parhaus | |

### Sefydlu Parhaus

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Lansio'r Is-gronfeydd Dyled Preifat ac Isadeiledd | Do | Rhaglenni buddsoddi seilwaith a dyledion preifat wedi'u lansio |
| • Lansio Is-gronfa Ecwiti Preifat | Yn mynd rhagddo | Rhaglen buddsoddi ecwiti preifat I'w lawnsio ddiweddarach yn y flwyddyn |
| • Lansio Is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy | Do | Lansiwyd 20 Mehefin 2023 |
| • Llunio gofynion Eiddo'r Bartneriaeth a'r modd gorau o'u gweithredu, ynghyd â lansio'r Is-gronfeydd eiddo | Yn mynd rhagddo | Gwaith ar y gweill, ar gam mandad manyleb ar hyn o bryd |
| • Ystyried gofynion / effaith agenda Ffyniant Bro y Bartneriaeth | Parhaus | |

| | | |
|---|---|---|
| • Lansio Is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat eraill (I'w cadarnhau) | | Trafodaethau i'w cynnal gyda CAs unigol |
| • Ymgynghori â'r AC am yr angen am ragor o is-gronfeydd, adolygu a datblygu dull o gyfuno unrhyw asedau addas na chawsant eu cyfuno | Parhaus | |
| • Ystyried cyfleoedd Buddsoddi Lleol | Parhaus | |

### Gwasanaethau Gweithredwr

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Contract y gweithredwr / y broses gaffael | Yn mynd rhagddo | Gwaith caffael wedi dechrau, ITT i'w gyhoeddi mis Hydref 2023 |
| • Trosolwg y gweithredwr | Parhaus | |

### Buddsoddiadau ac Adrodd Arnynt

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Adolygu mandadau'r Is-gronfa i sicrhau eu bod yn gydnaws â Chredoau Buddsoddi Cyfrifol a Risgiau Hinsawdd PPC. | Parhaus | |
| • Adroddiad y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) | | Aros am ymateb i ymgynghoriad TCFD |
| • Adrodd ar y Cod Stiwardiaeth | Yn mynd rhagddo | Adroddiad 2022/23 i fod i'w gyflwyno erbyn 31 Hydref 2023 |
| • Ystyried adrodd ychwanegol sy'n dangos ymrwymiad PPC i Fuddsoddi Cyfrifol | Parhaus | |
| • Adrodd, craffu a herio parhaus ar berfformiad y Rheolwr Buddsoddi | Parhaus | |

| | | |
|---|---|---|
| • Adolygiad blynyddol o Ofynion Tryloywder Costau'r Bartneriaeth | | I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2024 |
| • Adolygiad perfformiad blynyddol o Is-gronfeydd PPC (Ecwiti ac Incwm Sefydlog) | | I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2024 |
| • Ymgysylltiad parhaus â'r Awdurdodau Cyfansoddol o ran safonau isafswm ESG / Buddsoddi Cyfrifol a'u huchelgeisiau hinsawdd | Parhaus | |

## Cyfathrebu, Hyfforddi ac Adrodd

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Llunio Adroddiad Cynnydd Blynyddol PPC ar Fuddsoddi Cyfrifol | Do | Adroddiad wedi'i gyflwyno yn y CBLl ym mis Gorffennaf 2022 ac wedi'i gyhoeddi ar y wefan |
| • Llunio cynllun hyfforddi blynyddol PPC | | I'w lunio yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2024 |
| • Llunio diweddariad blynyddol PPC | Do | Cyhoeddwyd diweddariad blynyddol 2022/23 ym mis Awst 2023 |
| • Llunio adroddiad blynyddol PPC | Yn mynd rhagddo | Adroddiad blynyddol 2022/23 i'w gyhoeddi Hydref 2023 |

## Adnoddau, cyllideb a ffioedd

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu | | I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2024 |
| • Llunio cyllideb flynyddol PPC | | I'w lunio yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2024 |
| • Adolygu a monitro ffïoedd gweithredwr / darparwr allanol | Parhaus | |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Pwyllgor Pensiynau** |
| DYDDIAD: | **27 Tachwedd 2023** |
| TEITL: | **CYNADLEDDAU PENSIYNAU** |
| PWRPAS**:** | **I drafod cynadleddau 2024** |
| AWDUR: | **Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi** |

---

## 1. Cyflwyniad

Mae aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn cael y cyfle i fynychu nifer o gynadleddau ar sail rota yn ystod y flwyddyn er mwyn ehangu gwybodaeth a trafod materion cyfoes.

## 2. Calendr Cynadleddau 2024

Mae dyddiadau cynadleddau 2024 fel a ganlyn:

**i)** **<u>LGPS Governance Conference, Efrog</u>**
Dydd Iau, 18 Ionawr i Dydd Gwener, 19 Ionawr 2024

**ii)** **<u>LGC Investment Seminar, Carden Park</u>**
Dydd Iau, 14 Mawrth i Dydd Gwener 15 Mawrth 2024

**iii)** **<u>LGPS Pooling Symposium, Belfry</u>**
Dydd Mawrth, 23 Ebrill i Dydd Mercher 24 Ebrill 2024

**iv)** **<u>LAPF Strategic Investment Forum, The Grove</u>**
Dydd Llun, 1 Gorffennaf i Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2024

**v)** **<u>LGC Investment Summit, Birmingham</u>**
Medi 2024 (union ddyddiad i'w gadarnhau)

**vi)** **<u>LAPFF Conference, Bournemouth</u>**
Rhagfyr 2024 (union ddyddiad i'w gadarnhau)

Mae posib caniatau hyd at ddau aelod i pob digwyddiad.

## 3. Mynychwyr

Gofynnir i'r aelodau ddatgan eu diddordeb i fynychu'r digwyddiadau uchod erbyn 15fed o Rhagfyr 2023 os gwelwch yn dda.